

Memorandwm Esboniadol i Reoliadau'r Pŵer Cymhwysedd Cyffredinol (Diben Masnachol) (Amodau) (Cymru) (Diwygio) 2022

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan Adran Llywodraeth Leol Llywodraeth Cymru ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r rheoliadau uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

Datganiad y Gweinidog

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau'r Pŵer Cymhwysedd Cyffredinol (Diben Masnachol) (Amodau) (Cymru) (Diwygio) 2022. Rwyf yn fodlon bod y manteision yn cyfiawnhau'r costau tebygol.

Rebecca Evans AS
Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol

6 Ebrill 2022

1. Disgrifiad

1.1. Mae Rheoliadau'r Pŵer Cymhwysedd Cyffredinol (Diben Masnachol) (Amodau) (Cymru) (Diwygio) 2022 ("Rheoliadau 2022") yn diwygio Rheoliadau'r Pŵer Cymhwysedd Cyffredinol (Diben Masnachol) (Amodau) (Cymru) (Diwygio) 2021 ("Rheoliadau 2021") i ymestyn ystyr 'awdurdod' yn Rheoliadau 2021 i gynnwys cynghorau cymuned cymwys. Mae Rheoliadau 2021 yn rhagnodi'r amodau y mae'n rhaid i awdurdod eu bodloni cyn y gall arfer y pŵer cymhwysedd cyffredinol at ddiben masnachol.

1.2. Daw'r darpariaethau hyn i rym ar 5 Mai 2022.

2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

2.1. Dim.

3. Cefndir deddfwriaethol

3.1. Mae adran 24 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 ("Deddf 2021") yn rhoi pŵer cymhwysedd cyffredinol i awdurdodau lleol cymwys yng Nghymru. Mae awdurdod lleol cymwys yn brif gyngor neu'n gyngor cymuned cymwys. Mae'r pŵer cymhwysedd cyffredinol a roddir i'r awdurdodau hynny yn cynnwys pŵer i wneud rhai pethau at ddiben masnachol.

3.2. Mae Gorchymyn Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (Cychwyn Rhif 1 a Darpariaeth Arbed) 2021, a wnaed ar 3 Mawrth 2021, yn dod â'r pŵer cyffredinol i rym ar gyfer prif gynghorau ar 1 Tachwedd 2021 a chynghorau cymuned cymwys ar 5 Mai 2022.

3.3. Cynhwysir y pwerau sy'n galluogi'r Rheoliadau hyn i gael eu gwneud yn adrannau 28(4), 5, 6(c) o Ddeddf 2021.

3.4. Mae adran 27 o Ddeddf 2021 yn rhagnodi terfynau ar wneud pethau at ddiben masnachol wrth arfer y pŵer cyffredinol. Mae adran 27(b) o Ddeddf 2021 yn darparu bod rhaid arfer y pŵer cyffredinol at ddiben masnachol drwy gwmni (fel y'i diffinnir yn adran 27(4)).

3.5. O dan Adran 28(4) caiff Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, ddarparu bod arfer y pŵer cyffredinol yn ddarostyngedig i amodau. Mae adran 28(5)(b) yn darparu y caiff y pŵer i wneud rheoliadau o dan adran 28(4) ddarparu bod arfer y pŵer cyffredinol at ddiben masnachol yn ddarostyngedig i amodau yn ychwanegol at yr amodau hynny a ragnodir yn adran 27. Mae adran 28(6)(c) yn darparu y gellir arfer y pŵer o dan is-adran 28(4) mewn perthynas â disgrifiad penodol o awdurdod lleol sy'n awdurdod lleol cymwys.

- 3.6. Roedd rheoliadau 2021 yn gymwys i ddechrau i brif gynghorau yn unig (o fewn ystyr adran 171(1) o Ddeddf 2021). Mae'r rheoliadau hyn yn ymestyn cymhwysiad y rheoliadau hynny i gynghorau cymuned cymwys o 5 Mai 2022.
- 3.7. Mae adran 30 o Ddeddf 2021 yn nodi'r meini prawf ar gyfer sut y gall cyngor cymuned ddod yn gyngor cymuned cymwys – sef bodloni'r holl amodau cymhwysedd a nodir yn adrannau 30(2) i (4) a phasio penderfyniad ei fod yn gyngor cymuned cymwys.
- 3.8. Mae'r Rheoliadau hyn yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol yn unol ag adran 174(6) o Ddeddf 2021 gan fod y rheoliadau hyn yn cael eu gwneud yn unig at ddiben a ddisgrifir yn adran 28(8) o Ddeddf 2021. Daw'r rheoliadau hyn i rym ar 5 Mai 2022.

4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

- 4.1. Daeth Rheoliadau 2021 i rym ar 1 Tachwedd 2021 ac maent yn darparu i arfer y pŵer cyffredinol i wneud pethau at ddiben masnachol fod yn ddarostyngedig i amodau ychwanegol. Pan ddaeth i rym, dim ond i brif gynghorau yr oedd y pŵer cyffredinol ar gael.
- 4.2. Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau 2021 i gynnwys cynghorau cymuned cymwys fel y'u diffinnir gan adran 30 o Ddeddf 2021. Yn benodol, diwygir rheoliad 1(2) o Rheoliadau 2021 i gynnwys 'cynghorau cymuned cymwys' o fewn y diffiniad o "awdurdod". Effaith hyn yw ymestyn cymhwys Rheoliadau 2021 i gynghorau cymuned cymwys o 5 Mai 2022, sef y dyddiad y gallant arfer y pŵer cymhwysedd cyffredinol, gan gynnwys at ddiben masnachol.

5. Ymgynghori

- 5.1. Roedd ymgynghoriad 12 wythnos ar agor rhwng 28 Mehefin 2021 a 24 Medi 2021 ar y fersiwn ddrafft o rheoliadau 2021. Gofynnodd yr ymgynghoriad hwnnw hefyd i ymatebwyr a ddylai cynghorau cymuned sy'n gymwys i arfer y pŵer cymhwysedd cyffredinol gael eu hawdurdodi i ddefnyddio'r pŵer cyffredinol at ddiben masnachol, yn ddarostyngedig i'r un amodau ychwanegol â phrif gynghorau.
- 5.2. Darparwyd y ddogfen ymgynghori ffurfiol a'r rheoliadau drafft yn Gymraeg ac yn Saesneg ar wefan Llywodraeth Cymru ac anfonwyd y ddolen at bob cyngor cymuned a thref yng Nghymru, yn ogystal ag amrywiaeth o randdeiliaid eraill gan gynnwys prif gynghorau, Un Llais Cymru, Cymdeithas Clercod Cynghorau Lleol, Archwilio Cymru a Chymdeithas Genedlaethol y Cynghorau Lleol.

5.3. Cytunodd y mwyafrif o'r ymatebwyr i'r ymgynghoriad i'r cyfle i gynghorau cymuned cymwys allu ystyried cyfleoedd masnachol.

5.4. Mae'r crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar gael [yma](#)

6. ASESIAID EFFAITH RHEOLEIDDIOL

6.1. Paratowyd Aseiad Effaith Rheoleiddiol fel rhan o Reoliadau 2021, a asesodd yr effaith ar brif gynghorau. Mae'r aseiad effaith rheoleiddiol hwn yn ystyried yr effaith ar ddiwygio Rheoliadau 2021 i gynnwys 'cynghorau cymuned cymwys'. Ystyriwyd dau opsiwn:

- Opsiwn 1: Cynnal y *status quo*.
- Opsiwn 2: Gwneud Rheoliadau'r Pŵer Cymhwysedd Cyffredinol (Diben Masnachol) (Amodau) (Cymru) 2022 fel y'u cyflwynir yn y Rheoliadau drafft.

Opsiwn 1: Cynnal y *status quo*

6.2. O dan yr opsiwn hwn, byddai'n ofynnol i brif gyngor:

- cyn arfer y pŵer, paratoi a chymeradwyo achos busnes o blaid y bwriad i arfer y pŵer;
- cyhoeddi'r achos busnes cymeradwy cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol; a
- lle mae wedi cyflenwi unrhyw beth i'r cwmni y mae'r pŵer cyffredinol yn cael ei arfer drwyddo, adennill ei gostau oddi wrth y cwmni hwnnw

6.3. Er hynny, ni fyddai cynghorau cymuned cymwys yn ddarostyngedig i unrhyw amodau ychwanegol wrth wneud rhywbeth at ddiben masnachol wrth arfer y pŵer cymhwysedd cyffredinol.

6.4. Yn hytrach, ni fyddai'n ofynnol i gynghorau cymuned cymwys gydymffurfio â'r cyfyngiadau a'r amodau a ragnodir ar wyneb Deddf 2021 (neu mewn unrhyw reoliadau eraill a wneir gan Weinidogion Cymru o dan eu pwerau yn neddf 2021) ond wrth ddefnyddio'r pŵer cyffredinol i wneud rhywbeth at ddiben masnachol. Byddai defnyddio'r pŵer cyffredinol i wneud rhywbeth at ddiben masnachol fel arall yn ddilyffethair.

Costau

6.5. Nid oes costau ychwanegol yn gysylltiedig â'r opsiwn hwn.

Manteision

6.6. Ni fyddai'r opsiwn hwn yn rhoi unrhyw fanteision ychwanegol.

Opsiwn 2: Gwneud Rheoliadau'r Pŵer Cymhwysedd Cyffredinol (Diben Masnachol) (Amodau) (Cymru) 2022 fel y'u cyflwynir yn y Rheoliadau drafft

6.7. O dan opsiwn 2, byddai Rheoliadau'n cael eu gwneud i ymestyn y diffiniad o awdurdod yn Rheoliadau 2021 i gynnwys cynghorau cymuned cymwys, i ddarparu:

- cyn arfer y pŵer, fod rhaid i awdurdodau cymwys, sef prif gyngor neu gyngor cymuned cymwys, baratoi a chymeradwyo achos busnes o blaid y bwriad i arfer y pŵer;
- bod yr achos busnes cymeradwy yn cael ei gyhoeddi cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol; a
- lle mae awdurdod wedi cyflenwi unrhyw beth i'r cwmni y mae'r pŵer cyffredinol yn cael ei arfer drwyddo, fod rhaid i'w awdurdod adennill ei gostau oddi wrth y cwmni hwnnw

6.8. Byddai'n ofynnol i'r achos busnes roi manylion y canlynol, a hynny drwy ddatganiad cynhwysfawr:

- (a) nodau ac amcanion y bwriad i arfer y pŵer cyffredinol;
- (b) y costau, y buddsoddiadau a'r adnoddau eraill y mae eu hangen er mwyn cyflawni'r nodau a'r amcanion hynny;
- (c) y canlyniadau ariannol y disgwylir iddynt gael eu cyflawni drwy'r bwriad i arfer y pŵer cyffredinol;
- (d) unrhyw ganlyniadau ariannol eraill y disgwylir iddynt gael eu cyflawni drwy'r bwriad i arfer y pŵer cyffredinol;
- (e) unrhyw risgiau sy'n gysylltiedig â'r bwriad i arfer y pŵer cyffredinol gan gynnwys asesiad o ddifrifoldeb y risgiau hynny, ac unrhyw gamau y mae'r awdurdod yn bwriadu eu cymryd i liniaru'r risgiau hynny;
- (f) yr effaith (gan gynnwys yr effaith ar delerau ac amodau cyflogaeth) ar unrhyw staff y mae'n bwriadu eu cyflenwi i gwmni y mae'n arfer y pŵer cyffredinol i wneud pethau at ddiben masnachol drwyddo; a
- (g) y trefniadau arfaethedig ar gyfer staffio'r cwmni y mae'n arfer y pŵer cyffredinol i wneud pethau drwyddo at ddiben masnachol, gan gynnwys telerau ac amodau cyflogaeth arfaethedig unrhyw staff sydd i'w cyflogi.

Costau

6.9. Rhagwelir y gallai gofynion y Rheoliadau arwain at rai cyfleoedd ychwanegol a chostau gweinyddol i gynghorau cymuned cymwys sy'n dewis gwneud rhywbeth at ddiben masnachol.

6.10. Rhagwelir y byddai'r rhan fwyaf o achosion busnes yn cael eu paratoi yn fewnol gan gynghorau cymuned cymwys ac felly byddai'r costau'n ymwneud ag amser staff i gwblhau'r gwaith hwn. Lle byddai cyngor cymuned cymwys yn ystyried gwneud peth arbennig o fawr neu gymhleth at ddiben masnachol, efallai y bydd yn ystyried cyflogi contractwyr allanol a fyddai'n golygu costau ychwanegol.

- 6.11. Pŵer galluogi yw'r pŵer cyffredinol, sy'n rhoi disgrisiwn i awdurdodau ddefnyddio'r pŵer os ydynt yn dymuno gwneud hynny. O'r herwydd, mae pa mor aml y byddai'r pŵer yn cael ei arfer yn y modd hwn yn ansicr.
- 6.12. Gallai'r gofyniad i adennill costau oddi wrth y cwmni y mae'r awdurdod yn gwneud rhywbeth drwyddo at ddiben masnachol arwain at rai costau gweinyddol i'r cyngor cymuned cymwys, os yw cyngor wedi dewis sefydlu cwmni. Rhagwelir y byddai'r costau hyn yn mynd yn ofer gan y disgwylir y bydd cynghorau cymuned cymwys naill ai'n defnyddio'r systemau presennol sydd ar waith i gwblhau'r dasg hon neu i greu systemau newydd fel rhan o sefydlu'r cwmni. Mae'r amodau cymhwyso ar gyfer cynghorau cymuned cymwys yn rhoi sicrwydd bod y cyngor yn gymwys i reoli'r rhain. Bydd y gofyniad hwn hefyd yn arwain at drosglwyddiad ariannol o'r cwmni i'r cyngor cymuned cymwys, gyda'r gwerth yn adlewyrchu'r costau a ysgwyddir gan y cyngor i gefnogi'r gweithgarwch masnachol.
- 6.13. Ymgynghorodd Llywodraeth Cymru ar yr asesiad effaith rheoleiddiol drafft ar gyfer Rheoliadau 2021 ac ni ddarparwyd unrhyw dystiolaeth i awgrymu sut y gellid mireinio'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol ymhellach ynghylch costau amcangyfrifedig paratoi achos busnes. Byddai costau o'r fath yn ddarostyngedig i gymhlethdod yr achos busnes dan sylw.

Manteision

- 6.14. Byddai paratoi a chymeradwyo achos busnes cyn i gynghorau cymuned cymwys arfer y pŵer cymhwysedd cyffredinol at ddiben masnachol yn helpu i sicrhau bod awdurdodau'n ystyried yn llawn yr hyn y maent yn ceisio'i gyflawni, pam a sut y maent yn mynd i gyflawni hyn, y goblygiadau ariannol tebygol, a'r manteision i'w cymunedau. Bydd hyn yn cefnogi penderfyniadau tryloyw a chadarn, gan alluogi penderfyniadau i gael eu gwneud i gydnabod y canlyniadau neu'r risgiau posibl ac ar ôl eu hystyried yn ofalus.
- 6.15. Mae cyllidebau cynghorau cymuned yn llawer llai na chyllidebau prif gynghorau a gall y cynnig gyfrif am gyfran sylweddol o'u cyllideb a'r risg uwch hon. Felly, mae gofynion yr achos busnes yn rhoi sicrwydd ychwanegol i'r cyngor cymuned a'r etholwyr cymwys bod y cynnig yn fforddiadwy.
- 6.16. Er y gallai cyngor cymuned cymwys gefnogi sefydlu cwmni yn rhesymol, gallai cymhorthdal neu gyllid parhaus ystumio'r farchnad yn annheg ar draul unrhyw fusnesau presennol neu ddarpar newydd-ddyfodiaid i'r farchnad. Bydd y gofyniad bod y cyngor yn adennill costau llawn unrhyw gymorth neu wasanaethau y mae'n eu darparu i'r cwmni y mae'r pŵer cyffredinol yn cael ei arfer drwyddo at ddiben masnachol yn helpu i sicrhau nad yw hyn yn digwydd.

